**Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd am 7:00 y.h. Nos Fawrth, 18 Rhagfyr 2018 yn Y Sefydliad Coffa, Llanrug.**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Haf Williams (Cadeirydd). Avril Jones (Is-gadeirydd), Goronwy Hughes, Martin Jones, Cemlyn Jones, Meirwen Lloyd, Clifford Williams

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Llywelyn Williams, Hefin Jones, Rhys Parry, Richard Robinson, Alan Pritchard, Phil Roberts

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones (Aelod Cwm y Glo ar Gyngor Gwynedd)

**Clerc:** Meirion Jones

**308. Croeso gan y Cadeirydd**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb i'r cyfarfod a diolchwyd i bawb am eu presenoldeb

**309. Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**310. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w cofnodi fel yn briodol

**311. Cadarnhau cofnodion cyfarfod mis Tachwedd 2018**

Cadarnhawyd cofnodion mis Tachwedd yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd.

**312. I drafod unrhyw faterion sydd yn codi o'r cofnodion.**

**Cyfarfod yn y fynwent**

Nodwyd fod cyfarfod i fod yn y fynwent ond oherwydd y tywydd bu'n rhaid canslo'r cyfarfod.

**Penderfynwyd:** Ail drefnu'r cyfarfod ar gyfer y 5ed o Ionawr 2019 am 10:00 yn y fynwent.

**Y Goeden Nadolig**

Adroddwyd eu bod wedi cael trafferth gosod y goeden Nadolig yn Llanrug oherwydd y gwynt cryf ar y diwrnod ond yn y diwedd fe lwyddwyd i'w gosod. Adroddwyd hefyd y goleuadau sydd i fynd ar y goeden wedi cael eu archwilio ar gyfer gofynion PAT.

**Hyfforddiant Diffibriliwr**

Adroddwyd bydd angen trefnu hyfforddiant ar ddefnyddio'r diffibriliwr a bydd y darparwyr yn trefnu hyn. Awgrymwyd y dylid cynnal mwy nac un sesiwn ac y dylid cael un yn ystod y dydd a'r llall gyda'r nos.

**Penderfynwyd:** Hysbysu darparwyr y diffibriliwr o'r dyddiad 22 o Ionawr 2019 a byddai yn bosib cynnal sesiwn yn Y Sefydliad Coffa yn y prynhawn a gyda'r nos y diwrnod yna. Y Clerc i gysylltu a'r hyfforddwr i holi os yw'r 22 o Ionawr yn dderbyniol iddo.

**Diffibriliwr ar gyfer Cwm y Glo**

Adroddwyd y bydd digon o arian y bwrcasu un ar gyfer Cwm y Glo.

**Penderfynwyd:** Awdurdodi'r Clerc archebu un i Cwm y Glo ac y byddai'r Cynghorydd Avril Jones yn holi am le i'w leoli a gadael i'r Clerc wybod

**Hyfforddiant 'Training the Trainers'**

Holodd y Cynghorydd Cemlyn Jones os oedd hyfforddiant o'r uchod i'w gael ac y byddai yn fodlon mynychu hyfforddiant o'r math. Byddai wedyn yn gallu hyfforddi grwpiau oddi fewn i'r gymuned.

**Penderfynwyd:** Diolch i'r Cynghorydd Cemlyn Jones am ei gynnig a'r Clerc i holi os oes hyfforddiant o'r math yma ar gael.

**313. I dderbyn diweddariad ar y clwb ieuenctid**

Adroddwyd gan y Clerc oherwydd fod y praesept i Gyngor Gwynedd angen cael ei osod yng nghyfarfod mis Ionawr ei fod yn bwysig fod cyn gymaint o wybodaeth yn cael ei drosglwyddo i'r aelodau fel gallent benderfynu os ydi Cyngor Cymuned Llanrug am ariannu'r clwb ieuenctid ym mlwyddyn ariannol 2019 / 2020. I'r perwyl hyn adroddwyd fod nifer yr aelodau yn 54 ac fod eu dalgylch fel a ganlyn.

| | | |
|---|---|---|
| Llanrug | 44 | (81.5%) |
| Bethel | 2 | ( 3.7%) |
| Waunfawr | 1 | ( 1.85%) |
| Penisarwaun | 1 | ( 1.85%) |
| Deiniolen | 6 | (11.1%) |

Adroddwyd fod tal aelodaeth i'r clwb yn £1 ac fod yr aelod yn talu 50c y noson ar gyfer pob ymweliad a'r clwb.

Adroddwyd fod yr arian i'w drin fel arian y Cyngor Cymuned OND wedi ei glustnodi ar gyfer gwariant y clwb ieuenctid yn unig – a dim arall. Eglurodd y Clerc ei fod wedi ceisio agor cyfrif banc yn yr HSBC sef ail gyfrif yn bwrpasol ar gyfer y clwb ieuenctid ond fod yr ymdrech wedi bod yn hollol aflwyddiannus

oherwydd nifer o resymau. Roedd yn hanfodol fod staff y clwb ieuenctid yn gallu talu arian i fewn i'r cyfrif yn Swyddfa Bost Llanrug ac hefyd fod gweinyddiaeth y cyfrif yn rhwydd i'r Clerc. I'r perwyl hyn gofynnodd y Clerc os byddai yn bosib iddo agor cyfrif gyda banc y 'National Westminster', sydd gyda cangen yn Llangefni ac hefyd ble gellir talu arian i fewn i'r cyfrif yn Swyddfa'r Bost.

Hefyd adroddwyd nad oedd gan y staff arian mân ar gyfer prynu offer ar gyfer gweithgareddau.

**Penderfynwyd:** Diolchwyd a derbyniwyd y wybodaeth a cytunwyd i:-

a) Awdurdodi'r Clerc i agor cyfrif ar gyfer y clwb ieuenctid yn banc National Westminster ;
b) Caniatáu mân arian o £50 ar gyfer y clwb ieuenctid a'r clerc i'w drefnu

**314. I dderbyn sylwadau ar y Fynwent**

Adroddwyd nad oedd Pwyllgor y Fynwent wedi cyfarfod oherwydd y tywydd, ac fod cyfarfod arall wedi ei drefnu ar gyfer y 5ed o Ionawr 2019. Y Clerc i anfon nodyn allan i hysbysu'r aelodau.

**315. I dderbyn adroddiad gan y Pwyllgor Hamdden.**

Yn absenoldeb Cadeirydd y Pwyllgor Hamdden adroddodd y Cynghorydd Meirwen Lloyd y canlynol

**Coeden Nadolig**

Adroddwyd fod y pwyllgor wedi cyfarfod gyda Mrs Meinir Griffith i drafod trefniadau ar gyfer y goeden Nadolig. Eglurwyd bydd y goeden yn aros fyny hyd y Dydd Llun y 7fed o Ionawr pryd fydd y plant yn ôl yn yr ysgol.

**Diwrnod Casglu Ysbwriel**

Adroddwyd fod dyddiad casglu ysbwriel wedi ei drefnu ar gyfer y 12 o Ionawr 2019 yn Llanrug ac os na fydd y tywydd yn caniatáu i'w gynnal, yna ei symud i'r 19 o Ionawr. Manylion i'w dosbarthu gan y Clerc cyn y dyddiad.

**Cystadleuaeth Pentrefi Bywiog – Sir Gaernarfon**

Adroddwyd fod Y Cynghorwyr Rhys Parry, Llywelyn Williams, Cemlyn Jones, Meirwen Lloyd a'r Clerc wedi mynychu noson wobrwyo yn Pant Du, Penygroes i dderbyn yr ail wobr yn y gystadleuaeth uchod.

**316. Praesept ar gyfer 2019 / 2020**

Adroddwyd fod ein praesept i fod i fewn i Gyngor Gwynedd erbyn 18 o Ionawr 2019 sydd yn golygu y bydd rhaid i gyfarfod mis Ionawr gadarnhau'r praesept. Bydd yn hanfodol fod y Pwyllgor Cyllid yn cyfarfod cyn hyn i fynd drwy'r gyllideb.

**Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth ac i'r Pwyllgor Cyllid gyfarfod ar 9fed o Ionawr am 7:00 yn yn Y Sefydliad Coffa i drafod y gyllideb ar gyfer 2019 / 2020.

**317 I dderbyn adroddiad gan gynrychiolydd y Cyngor Cymuned ar gorff Llywodraethol Ysgol Gynradd Llanrug.**

Dim adroddiad ar gael oherwydd absenoldeb y cynrychiolydd

**318. I dderbyn adroddiad gan gynrychiolydd y Cyngor Cymuned ar gorff Llywodraethol Ysgol Gynradd Cwm y Glo.**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Alan Pritchard eu bod wrthi yn gwagio'r ysgol. Adroddwyd ymhellach fod noson wedi ei chynnal yn yr ysgol i arddangos hen luniau ac i gyn ddisgyblion ddod at ei gilydd.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am y wybodaeth

**319. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones ar weithgareddau dros y mis yng Nghyngor Gwynedd.**

**Cyllideb**

Dal i ddisgwyl y ffigyrau terfynol gan Llywodraeth Cymru ond dim ond mân newidiadau a ddisgwylir. Mae'r bwlch yn y gyllideb oddeutu £13miliwn ac roedd adroddiad gerbron y cabinet heddiw, yn amlinellu rhai opsiynau i arbed arian sydd yn cynnwys arbedion effeithlonrwydd a toriadau. Y cynghorwyr i gyd wedi cael cyflwyniad ar y sefyllfa, ac fydd cyfarfodydd yn cael eu trefnu i benderfynu ar yr opsiynau a'r effaith yn mis Chwefror. Mi fydd hyn yn arwain at osod y dreth am y flwyddyn nesaf.

**Arbedion / Pa Wasanaethau Cyngor Gwynedd sy'n bwysig i chi**

Mae canlyniad yr arolwg ar gael yn awr, mae o i weld ar yr adroddiad aeth i'r cabinet ar 18fed Rhagfyr. Braf gweld fod y 10 uchaf yn cynnwys llawer o'r gwasanaethau yn ymwneud a plant a phobol hŷn. Mae na ddadansoddiad trylwyr o'r gwahanol ardaloedd ac hefyd fesul oedrannau.

**Cyngor Llawn**

Comisiwn ffiniau wedi gwneud eu argymhelliad terfynol, ward Brynrefail iw gynnwys hefo Etholaeth Cwm y Glo. Maent yn dal i argymell fod Felinheli yn ymuno hefo Bethel i wneud un ward 2 aelod. Y cyngor, ac aelodau y ddwy

ward yn anghydweld, ac yn mynd i ysgrifennu at Llywodraeth Cymru yn datgan hyn. Hefyd yn anghydweld hefo y trefniadau yn Bangor.

**Cwmni Hamdden**

Mae'r clerc wedi rhannu y newyddlen sydd wedi ei gylchredeg gan yr Awdurdod yn adrodd ar y sefyllfa diweddaraf.

**Cynllunio**

Hyfforddiant wedi ei drefnu i bob cynghorydd sîr ar y drefn Cynllunio, ac hefyd fe fydd trefniadau yn cael ei wneud i raeadru yr hyfforddiant i Gynghorwyr Cymunedol

**Bysiau**

Arriva wedi gyrru gwybodaeth ynglŷn a newidiadau i Amserlenni rhai bysiau

**Penderfynwyd:** Derbyniwyd a diolchwyd am yr adroddiad

**320. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Charles Jones ar weithgareddau dros y mis yng Nghyngor Gwynedd.**

Dim adroddiad ar gael

**321. I dderbyn adroddiad ar y sefyllfa ddiweddara ar y diffibriliwr**

Adroddwyd fod y dau diffibriliwr wedi eu gosod yn Llanrug, un ar wal siop y Premier a'r llall ar wal tu allan i'r Glyntwrog. Adroddwyd mae'n debygol y bydd digon o arian i brynu un i Cwm y Glo ac fod angen trefnu hyfforddiant.

**Penderfynwyd:**

a) Awdurdodi'r Clerc i brynu un arall os yw arian yn caniatáu;
b) Trefnu diwrnod o hyfforddiant fel a nodir uchod;
c) Y clerc i anfon llythyr o ddiolch i Glyntwrog ac i Premier;
d) Y Clerc i hysbysu pawb sydd wedi cyfrannu o leoliadau'r diffibriliwr
e) Y Cynghorydd Avril Jones i geisio lleoliad ar gyfer un Cwm y Glo

**322. I ystyried cais am gymorth ariannol gan**

**a) Clwb Pêl droed Llanrug Unedig;**

**Penderfynwyd:** Yn unol a'r drefn arferol penderfynwyd cyfrannu £700 tuag at y clwb pêl droed.

**323. I ystyried a derbyn adroddiad yr Archwiliwr Allanol**

Adroddwyd gan y Clerc fod adroddiad wedi dderbyn gan gwmni BDO sydd wedi penodi gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cario allan archwiliad ar Gynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru**.**

Rhoddodd y Clerc fraslun o'r adroddiad, a bydd y rhybudd o'r archwiliad yn cael ei hysbysu ar hysbysfwrdd y Cyngor Cymuned.

**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad

**324. I ystyried a penderfynu ar waith sydd angen ei wneud ar goed parc Pwll Moelyn.**

Adroddwyd yng nghyfarfod diwethaf o'r Cyngor derbyniwyd amcangyfrif i gario allan adroddiad ar gyflwr coed cae chwarae Pwll Moelyn yn dilyn i un coeden ddymchwel yn ystod un o'r stormydd ym mis Hydref. Bydd yr aelodau'n cofio i gais gael ei wneud i docio'r coed yn gyfan gwbl ond fod y coed gyda hanes iddynt ac y gallai'r Cyngor gael ei farnu am docio'r coed heb ddim math o gynsail i'r penderfyniad. Fe dderbyniwyd pris gan arbenigwr ond oherwydd y swm, gofynnwyd i'r Clerc geisio dau amcangyfrif ychwanegol.

Adroddwyd fod dau amcangyfrif wedi ei dderbyn ynghyd a manylion o'r gwaith ond doedd y ddau ddim wedi manylu ei cymwysterau, neu wedi darparu manylion yswiriant.

**Penderfynwyd:** Derbyn yr amcangyfrif cyntaf ac awdurdodi'r Clerc i gysylltu ag ef i baratoi'r adroddiad ar y coed ar gae chwarae Pwll Moelyn.

**325. I ystyried a phenderfynu ar y cais cynllunio:-**

**Rhif Cyfeirnod Cais Cynllunio:** C18/1039/23/LL

**Lleoliad y Safle:** Minffordd Cottage, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL554PU

**Dyddiad Cofrestru:** 20-Tach-2018

**Math o Gais:** Llawn - Cynllunio

**Ward:** Llanrug

**Cymuned:** Llanrug

**Bwriad:** Addasu adeilad allanol ar gyfer uned wyliau, llecynau parcio a gwelliant i'r fynedfa bresennol

**Statws:** Cais wedi cofrestru

**Penderfynwyd:** Gwrthwynebu'r cais

**326. Lleoliad cyfarfod mis Ionawr 2019**

**Penderfynwyd:** Cynnal cyfarfod mis Ionawr yn Y Sefydliad Coffa, Llanrug a'r Clerc i holi am gyfleusterau yn Menter Fachwen Cwm y Glo ar gynnal cyfarfodydd yn Cwm y Glo.

Daeth y cyfarfod i ben am 20:50

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: 15 Ionawr 2019